Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Cliciwch yma i ailosod y ffurflen

Cliciwch yma i argraffu'r ffurflen

Ffurflen

**LP3**

# Ffurflen hysbysu pobl

Dim ond os oes 'pobl i'w hysbysu' (sydd hefyd yn cael eu galw'n 'bobl y dylid dweud wrthynt' neu'n 'bobl sydd wedi'u henwi') wedi cael eu rhestru yn yr atwrneiaeth arhosol y bydd angen ichi lenwi'r ffurflen hon.

**Sut i lenwi'r ffurflen hon**

**DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU A PHIN YSGRIFENNU DU**

☒ Rhowch X i farcio'ch dewis

■ Os byddwch yn gwneud camgymeriad, lliwiwch y blwch ac wedyn rhowch X wrth y dewis cywir

# Cyn ichi ddechrau

**Llinell Gymorth**
**0300 456 0300**

Dim ond os oes 'pobl i'w hysbysu' (sydd hefyd yn cael eu galw'n 'bobl y dylid dweud wrthynt' neu'n 'bobl sydd wedi'u henwi') wedi cael eu rhestru yn yr atwrneiaeth arhosol (LPA) y bydd angen ichi lenwi'r ffurflen hon. Gweler y Canllawiau, rhan C.

'Rhywun i'w hysbysu' yw rhywun y bydd y sawl sy'n gwneud LPA (y 'rhoddwr') yn dewis ei hysbysu bod yr LPA yn cael ei chofrestru. Does dim rhaid iddyn nhw ddewis neb i'w hysbysu. Felly, os yw'r adran honno o'r LPA yn wag, does dim angen ichi lenwi'r ffurflen hon.

Pan fyddwch yn gwneud cais am gofrestru'r LPA, rhaid ichi ddweud wrth y bobl i'w hysbysu fod yr LPA yn mynd i gael ei chofrestru.

Rhaid ichi anfon copi o'r ffurflen hon at bawb sydd i'w hysbysu, cyn ichi anfon yr LPA i'w chofrestru. Gallwch anfon y ffurflen hon atyn nhw neu ei rhoi iddyn nhw'n bersonol.

Gallwch arbed amser drwy lenwi tudalennau 2 a 3 a gwneud llungopi i'w anfon at bob un.

Does gan berthnasau'r rhoddwr ddim hawl i gael eu hysbysu heblaw eu bod wedi'u henwi yn yr LPA.

**Tynnwch y ddalen flaen hon yn rhydd cyn anfon y ffurflen atyn nhw.**

# Hysbysiad o'r bwriad o gofrestru atwrneiaeth arhosol

**Person i'w hysbysu**

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad:

Dydd Mis Blwyddyn

**Rydych wedi cael yr hysbysiad hwn oherwydd bod y sawl sydd wedi'i enwi ar dudalen 2 wedi gwneud atwrneiaeth arhosol.**

Dogfen gyfreithiol yw atwrneiaeth arhosol (LPA) sy'n gadael i rywun (sy'n cael ei alw'n 'rhoddwr') benodi pobl (sy'n cael eu galw'n 'atwrneiod') i wneud penderfyniadau ar ei ran. Mae'n gallu bod yn berthnasol i benderfyniadau ariannol neu i benderfyniadau am iechyd a gofal. Mae'n bosibl defnyddio LPA os bydd y rhoddwr yn methu â gwneud penderfyniadau drosto'i hun.

Mewn geiriau eraill, mae'r sawl sydd ar dudalen 2 yn penodi'r bobl sydd ar dudalen 3 i wneud penderfyniadau ar ei ran.

Wrth wneud yr LPA, penderfynodd y rhoddwr y dylid rhoi gwybod i chi amdani, cyn iddi gael ei chofrestru. Y rheswm dros hyn yw er mwyn i chi godi unrhyw beth sy'n eich poeni. Os ydych yn poeni am rywbeth, dim ond am y rhesymau sydd wedi'u rhestru ar dudalen 4 o'r ffurflen hon y cewch chi wrthwynebu cofrestru'r LPA.

**Os ydych am wrthwynebu, rhaid ichi wneud hynny o fewn 3 wythnos i ddyddiad yr hysbysiad hwn.**

Os nad ydych am wrthwynebu, does dim rhaid gwneud dim byd.

# Manylion yr atwrneiaeth arhosol

**Llinell Gymorth**
**0300 456 0300**

## Y rhoddwr - y sawl sydd wedi gwneud yr LPA

Teitl

Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Cod post

## Yr atwrneiaeth arhosol

**Pwy sy’n gwneud cais i gofrestru’r LPA?**

- [ ] Y Rhoddwr
- [ ] Yr Atwrnai / Atwrneiod

**Pa fath o LPA sy’n cael ei chofrestru?**

- [ ] Eiddo a materion ariannol
- [ ] Iechyd a lles

**Pa bryd y gwnaeth y rhoddwr lofnodi’r LPA?**

Dydd Mis Blwyddyn

# Yr atwrneiaeth arhosol

**Llinell Gymorth**
**0300 456 0300**

**Sut mae'r atwrneiod wedi cael eu penodi?**

- [ ] Dim ond 1 atwrnai sydd
- [ ] Ar y cyd ac yn unigol
- [ ] Ar y cyd
- [ ] Ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill

Teitl | Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Cod post

Teitl | Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Teitl | Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Teitl | Enwau cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Os oes mwy na 4 atwrnai, gwnewch gopi o'r dudalen hon.
Does dim angen ichi restru atwrneiod wrth gefn sydd wedi'u penodi yn yr LPA (os oes rhai).

# Sut i wrthwynebu

**Llinell Gymorth**
**0300 456 0300**

**Os ydych am wrthwynebu, rhaid ichi wneud hynny o fewn 3 tair wythnos ar ôl ichi gael yr hysbysiad hwn.**

Dim ond am un o'r rhesymau isod y cewch chi wrthwynebu LPA.

## Gwrthwynebu ar sail ffeithiau:

- mae'r rhoddwr neu un o'r atwrneiod wedi marw
- roedd y rhoddwr ac un o'r atwrneiod yn briod neu mewn perthynas sifil ond maen nhw wedi ysgaru neu wedi terfynu'r bartneriaeth sifil (heblaw bod yr LPA yn dweud y caiff yr atwrnai barhau i weithredu os digwydd hynny)
- does gan un o'r atwrneiod mo'r galluedd meddyliol i fod yn atwrnai (rhaid iddyn nhw allu deall a gwneud penderfyniadau drostyn nhw'u hunain)
- mae atwrnai wedi dewis rhoi'r gorau i weithredu (gelwir hyn yn 'ymwrthod â'r penodiad')
- mae'r rhoddwr neu un o'r atwrneiod yn fethdalwr, yn fethdalwr interim neu'n destun gorchymyn rhyddhad dyled (LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unig)
- mae'r atwrnai'n gorfforaeth ymddiriedolaeth sydd wedi'i dirwyn i ben neu wedi'i diddymu (LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unig)

I wrthwynebu ar sail ffeithiau, llenwch ffurflen LPA007 a'i hanfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r ffurflen ar gael yn www.gov.uk/power-of-attorney/object-registration neu drwy ffonio 0300 456 0300.

## Gwrthwynebu rhagnodedig:

- dydy'r LPA ddim yn gyfreithiol ddilys - er enghraifft, dydych chi ddim yn credu bod gan y rhoddwr y galluedd meddyliol i wneud LPA
- mae'r rhoddwr wedi dileu'r LPA pan oedd ganddo alluedd meddyliol i wneud hynny
- mae rhyw dwyll wedi bod neu mae'r rhoddwr wedi cael ei roi dan bwysau i wneud yr LPA
- mae atwrnai'n gweithredu y tu hwnt i'w awdurdod neu'n groes i les gorau'r rhoddwr (neu rydych yn gwybod mai dyna yw ei fwriad)

I wrthwynebu ar sail ragnodedig:

- llenwch ffurflen COP7 a'i hanfon i'r Llys Gwarchod. Mae'r ffurflen ar gael yn www.gov.uk/power-of-attorney/object-registration neu drwy ffonio 0300 456 4000 **A**
- llenwch ffurflen LPA008 a'i hanfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r ffurflen ar gael yn www.gov.uk/power-of-attorney/object-registration neu drwy ffonio 0300 456 0300

Os ydych yn gwrthwynebu atwrnai penodol, mae'n bosibl na fydd hynny'n golygu na chaiff yr LPA ei chofrestru os oes atwrneiod eraill neu atwrnai wrth gefn wedi cael eu penodi.

**Mae rhagor o wybodaeth am atwrneiaethau arhosol yn www.gov.uk/power-of-attorney neu drwy ffonio 0300 456 0300.**